# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 09/10/2018 Siop Siarad am 7yh

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad.) | Gruffydd Williams | Gwynfor Jones | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Glenda Rice | Janice Evans | Guto Williams | Lleucu Jones | Carys Roberts |
| Rhian Hughes-Jones (Clerc | | | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Andrew Owen, Arfon Hughes, Catrin Roberts a Sian Hughes

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio; Aelod o Bwyllgor Cynllunio
   Guto Williams – Cais Cynllunio Cae Chwarae Edern – Aelod o Bwyllgor Cae Chwarae Edern

3. **Cofnodion 11/09/2018 (er cywirdeb yn unig)**
   Newid gan Sharon Williams – Gwastraff - i nod bod Sharon Williams wedi gofyn am ail leoli'r bin gwastraff tuag at safle bws wrth Tŷ doctor.
   Newid geiriad gan Gruff Williams – Traethau – i nodi bod yr ymddiriedolaeth yn 'ystyried' gosod rhwystr.
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **<u>Nodyn gwaith gan Priffyrdd</u>**
     Nodwyd bod gohebiaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn nodi gwaith ar bolion telathrebu. Nodwyd Gruffydd Williams bod angen gwneud gwaith ar y gwli.
   - **<u>Gosod Blethdorch</u>**
     Yn absenoldeb Arfon Hughes mae wedi gwneud cais i'r Cyngor Tref gyflwyno torch ar ran y cyhoedd i gydnabod dioddefwr ar ganmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf. Bu trafodaeth helaeth am osod torch gyda gwrthwynebiadau. Cytunwyd i osod plethdorch o pabi gwyn.

5. **Gwasanaethau Ieuenctid**
   Rhys Tudur yn egluro bod tri ymgeisydd wedi ceisio a bod cyfweliadau yn cael eu cynnal. Bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal y cyfweliadau ar ran y Cyngor Tref ond bydd angen cynrychiolydd o'r Cyngor Tref i gynrychioli. Enwebwyd Gruffydd Williams, Rhys Tudur a Janice Evans.
   Cytunwyd i gynnal y noson yn y Ganolfan yn Nefyn o ran Iechyd a Diogelwch. Bydd angen edrych ar yswiriant yn ofalus iawn.

6. **Awdit**
   Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Wedi derbyn sylwadau gan BDO yn amlinellu nifer o bwyntiau. Mae'r clerc wedi ymateb ac yn disgwyl ymateb gan y BDO.
   Mae'r tabl ar gael i unrhyw un sydd hefo diddordeb.

7. **Traethau**
   Diweddariad gan Gruffydd Williams – Nodwyd ei fod mewn trafodaeth gydag Ioan Thomas er cynnal cyfarfod cyhoeddus i drafod gosod y rhwystrau i draethau Nefyn a Morfa Nefyn. Nodwyd ei fod mewn cysylltiad hefo Cyngor Gwynedd ac yn trefnu cyfarfod i drafod cyn gynted a bod modd.
   Cytunwyd Gruffydd Williams i yrru gwybodaeth ymlaen i'r clerc yn ogystal â'i chynnwys yn yr e-byst.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

Penogfa, Traeth Nefyn – Mae'r pysgotwyr yn bryderus iawn am gais am estyniad sydd wedi ei wneud ar dir maent gyda hawl yw defnyddio i storio cychod ac ati. Mae yna dystiolaeth o'r hawl i ddefnyddio'r tir yma yn hanesyddol. Mae Gruffydd Williams am yrru'r wybodaeth ymlaen i'r Clerc er gallu gyrru llythyr yn cefnogi'r pysgotwyr.
Tir y Fron – Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn cwyn ynglŷn â defnydd tir i storio cwt lan y môr ac ati yn Fron Nefyn. Nodwyd nad yw'n fater i'r Cyngor Tref ond mae Rhys Tudur am geisio i ddarganfod perchnogion tir ac adrodd yn ôl. Bydd y Clerc yn wybyddi'r achwynydd a'r sawl sydd yn berchennog y cwt lan y môr.

**8. Llwybrau**

Diweddariad gan Gruffydd Williams – Stryd y Mynach i Fryn Mynach; Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i wneud y gwaith o ail leoli llwybr yn ffurfiol. Bydd angen gyrru llythyr i gadarnhau. Bydd Gruffydd Williams yn gyrru gwybodaeth ymlaen i'r Clerc er llunio'r llythyr.

**9. Diffibriliwr**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Mae'r oll diffibriliwyr bellach yn iawn gyda batri a phadiau ynddynt. Mae'r Clerc dal i weithio gyda swyddog diffibriliwr Cymru i greu system well i oruchwylio'r dyfeisiau.

**10. Siop Siarad**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Mae'r gwaith adnewyddu yn mynd yn ei flaen diolch i ieuenctid Nefyn am eu gwaith arbennig dan arweiniad Andrew Owen.
Mae bil trydan hanesyddol wedi ei dderbyn. Bydd Rhys Tudur yn edrych i mewn i bwy sydd yn gyfrifol am dalu'r bil yma a beth yw'r trefniadau i'r dyfodol. Nodwyd hefyd bydd angen talu trwydded teledu pan fydd y wi-fi yn gweithio.

**11. Clirio Dogfennau Hanesyddol**

Mae'r Clerc wedi trefnu dyddiadau i glirio; 11/10/2018 a 27/10/2018. Bydd y Clerc yn Siop Siarad 10:00 – 14:00, a diolchgar iawn os gellir gwirfoddoli i helpu gyda'r gwaith.

**12. Gwynedd Digidol**

Nodwyd Bleddyn Evans bod y gwaith yn parhau a'i fod wedi gyrru'r pecyn gwybodaeth ymlaen i'r busnesau sydd o fewn dalgylch y Wi-Fi. Mae'r Cyngor Tref yn disgwyl am ddyddiad gan Fenter Môn i symud ymlaen i'r cam nesaf sef cyfarfod gyda chontractwr Menter Môn i edrych ar safleoedd y pontydd.

**13. Tir ymddiriedolaeth Nefyn**

Diweddariad gan Gruff Williams a Rhys Tudur – Nodwyd bod tua 53 acer o dir dan reolaeth yr ymddiriedolaeth. Nodwyd Gruff Williams nad oes unlle i fynd a cheffyl na beicio mynydd ac ati. Buasai'n gyfle i ddatblygu lle agored yw defnyddio gan y cyhoedd. Mae'r Clerc wedi darparu llythyr drafft yw gyrru i'r ymddiriedolaeth yn cynnig trosglwyddo'r baich i'r cyngor Tref, i'r aelodau a chytunwyd yw gyrru gyda man newidiadau.

**14. Bin Halen**

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig llenwi biniau halen yr ardal am ffi yn daladwy gan y Cyngor Tref. Mae nifer o gwestiynau wedi eu codi;

1. Lle mae'r biniau halen?
2. Pwy sydd yn llenwi'r biniau?
3. Ydi'r Cyngor Tref angen trwydded?
4. Be ydi'r amodau?
5. Ydi'r biniau yn cael eu llenwi ar gais y gymuned?
6. Cyfrifoldeb pwy yw'r biniau?

Cytunwyd i'r Clerc fynd yn ôl at Gyngor Gwynedd gyda'r cwestiynau ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref.

**15. Morheli Lon y Castell**

Rhys Tudur yn egluro'r sefyllfa gyda pherchennog y tir eisiau creu man parcio ar safle mainc hanesyddol ar long gam Nefyn. Nodwyd y clerc ei bod wedi gyrru e-bost i dwrne perchennog y tir yn egluro'r sefyllfa fel ac y mae gyda hawl tramwy i'r cyhoedd dros y tir.

Mae'r Clerc eisoes wedi llythyru Adrannau Cynllunio a Llwybrau Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r sefyllfa. Mae'r perchennog yn fodlon ail leoli'r fainc wrth wneud y gwaith. Nodwyd bod cyfanswm o bedair mainc ar dir y perchennog tir.

Mater sifil yw'r meinciau gan nad oes ganddynt berchennog nac yn disgyn o dan gyfrifoldeb y Cyngor Tref nac Cyngor Gwynedd.

Cytunwyd nad oes eisiau trafodaeth bellach gyda'r perchennog ac felly bydd eisiau gwrthwynebu ail leoli'r fainc.

**16. Deddf Lleol- Cynllun Datblygu Cymunedau**

Eglurwyd Rhys Tudur bod deddf yn cael eu defnyddio yn Lloegr i gymunedau allu llunio eu hardal eu hunain. Bu refferendwm yn St Ives i wahardd gwerthu tai haf.

Nodwyd faint o bwysig yw hi i warchod ein hardal ein hunai'n. Bydd rhaid profi bod ormod o dai haf a llety gwyliau hunangynhaliol yn yr ardal.

Cytunwyd Gruffydd Williams yrru ffigyrau ymlaen i'r Clerc, bydd Rhys Tudur yn drafftio'r llythyr yw gyrru i Gyngor Gwynedd, Sian Gwenllian, Dafydd Ellis Thomas, Y Cynulliad, Carwyn Jones ac Adam Price.

**17. Polisi Cyfryngau Cymdeithasol**

Gwybodaeth gan Rhian Hughes-Jones – Cytunwyd yw gohirio at gyfarfod mis Tachwedd er mwyn i'r aelodau cael fwy o amser i ddarllen y ddogfen.

**18. Cefnogol**

- Nifer e-byst sydd yn cael eu gyrru i Aelodau – Nodwyd nad yw'r Clerc yn gyfrifol am benderfynu pa ohebiaeth sydd yn bwysig i'r aelodau. Mae'r mwyafrif yn cael eu didoli eisoes.
- Atgoffa Aelodau o gyfarfodydd sydd eisoes wedi eu trefnu – Nid yw'n ofynnol i'r Clerc atgoffa aelodau o gyfarfodydd maent wedi derbyn gwŷs yw mynychu.
- Taliadau angen eu gwneud bore Mercher yn dilyn y cyfarfod – Nodwyd bod y Clerc yn gweithio oriau yn fisol nid yw'n ofynnol i'r oriau fod ar fore'r ail ddydd Mercher o bob mis. Nodwyd bod taliadau eisoes yn cael eu gwneud yn brydlon.

**19. Coed Nadolig**
Bydd trefnu is-bwyllgor gweithgareddau at 18/10/2018 am 7 y.h. yn Siop Siarad, Nefyn. Nodwyd bydd angen i'r coed bod yn eu lle cyn 26/11/2018. Cytunwyd i'r Clerc yrru allan am dendr i'r gwaith. Bu'n amserol i enwebu cadeirydd is-bwyllgor Gweithgareddau gyda Sharon Williams yn cael ei phenodi.

**20. Cyllid 3-5 mlynedd**
Mae angen trefnu cyfarfod Is-bwyllgor ariannol bydd hefyd yn gyfrifol am gynllun busnes 3-5 mlynedd. Cytunwyd i drefnu'r is-bwyllgor at 25/10/2018 am 7 y.h. yn Siop Siarad, Nefyn. Bu'n amserol i enwebu cadeirydd is-bwyllgor Llwybrau gyda Gruffydd Williams yn cael ei benodi.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C18/0797/42/LL**
Adeiladu estyniad unllawr ar gyfer ystafell wely ac ystafell haul.
Cobblestones, Lon Las, Morfa Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0670/42/LL**
Uwchraddio offer chwarae
Cae Chwarae Edern, Lon Rhos, Edern
**Cefnogol**

**C18/0773/42/LL**
Estyniad cefn a chodi storfa gwch ar wahan.
**Gwrthwynebiad - Mae pwyllgor Cyngor Tref Nefyn yn gwrthwynebu yn gryf iawn i'r cais yma. Mae'n or ddatblygiad o'r safle, mae'r llinell goch yn cynnwys y tir i gyd gan gynnwys darn o'r briffordd. Lle yn union mae'r ymgeiswyr yn mynd i adeiladu?**
**Bydd yr adeilad deulawr yn ddolur llygaid yn yr ardal ac yn llawer rhy fawr; Ty yw hwn a nid storfa.**

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 09/10/2018 Siop Siarad am 7yh

**<u>Gohebiaeth</u>**

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Hydref 2018
2. **SLCC** - Bwletin Hydref 2018
3. **Clerks & Councils Direct** – Hydref 2018
4. **Local Council Update** – Hydref 2018
5. **Comisiwn Ffiniau Cymru** - wedi cyflwyno ei Adroddiad Argymhellion Terfynol ar gyfer Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru
6. **Cysylltu Cymunedau yng Nghymru -** Cylch cyntaf y Rhwydweithiau Arloesi Cludiant i llywio datrysiadau cludiant
7. **Cist Cymunedol -** Grant Chwaraeon Gymunedol Gwynedd
8. **Llywodraeth Cymru -** Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles yng Nghymru 2019-2023 – Galw am Gynigion Grant
9. **Y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol Seminar Hyforddiant Rhanbarthol**
10. **Gwasanaeth Ieuenctid** – Cyflwyno Andrew Owen fel Gweithiwr Cymorth Ieuenctid.
11. **Swyddfa'r Post –** Newidiadau i Post Morfa Nefyn
12. **Arloesi Gwynedd** - Sioe Deithiol Dementia Yn Fy Nwylo i.
13. **Cyngor Gwynedd –** Pa wasanaeth sy'n bwysig I chi?
14. **Llywodraeth Cymru** - Ymgynghoriad - Heolydd Sydd Heb eu Mabwysiadu yng Nghymru

**Taliadau yw gwneud**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** Hydref | **£797.57** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£33.88** |
| **Cliff Hughes** – | |
| Taliad 7 ac 8 2018-19 - £1650.00 | **£1650.00** |
| **Mr David Parry** – Gwaith Mynwentydd | |
| Ail daliad Penniel - £130.00 | |
| Ail daliad Fron - £140.00 | |
| Pedwerydd taliad Morfa Nefyn - £166.00 | **£436.00** |
| **Replay Maintenance Ltd** – Gwaith Cae Chwarae **(Bryn Mynach)** | **£954.00** |
| **Ciff Hughes** -Gwaith lladd gwair ar llinell Llwybr y Morwyr **(BIG)** | **£152.00** |

**<u>Taliadau wedi eu derbyn</u>**

| | |
|---|---|
| **Dim** | **£0.00** |

**<u>Ceisiadau am gyfraniad</u>**

1. **LLYFRAU LLAFAR CYMRU** - Bob blwyddyn byddwn ni, yn Llyfrau Llafar Cymru yn recordio 50 o lyfrau Cymraeg a Saesneg fel y gall pobl sydd â nam ar eu golwg fwyhau pob math o lenyddiaeth.
2. **Nyrsys Marie Curie -** Mae'r holl arian sydd yn cael ei cyfrani yn cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie, felly gall y claf a teuluoedd yn y cymuned gael help gan eich rhodd.
3. **Prosiect Plas Carmel, Anelog –** Adfer hen adeilad capel unigryw a datblygu'r safle fel atyniad treftadaeth.

**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf**

Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737